

Ansicrwydd a Thangnefedd

Gobaith Tangnefedd Cariad Llawenydd



'y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welsant oleuni mawr'

Gair sy'n nodweddu'n bywydau yn ystod y misoedd diwethaf ydy ANSICRWYDD. Mae o'n rhedeg trwy ein cymdeithas heddiw wrth i ni ofyn cwestiynau fel ydy hi'n saff i mi fynd allan i siopa? Alla'i fynd i weld y teulu? Beth sydd am ddigwydd os byddaf yn gorfod mynd i'r 'sbyty? Pryd byddaf yn cael cynnig y brechiad? Fydd o'n saff i mi ei gymryd?

Ac mae ansicrwydd yn medru'n llethu ni gan achosi i ni golli hunan hyder.

Y flwyddyn Eglwysig

Mae rhai rhannau o'r flwyddyn eglwysig yn cael fwy o sylw nag eraill a does ddim amheuaeth mai'r Nadolig a'r Pasg ydy'r ddau rydym yn canolbwyntio arnynt tra mae'r gweddill fel y Grawys, y Dyrchafael, y Pentecost a'r Adfent yn cael lawer llai o sylw gennym. Ychydig iawn o sôn am yr Adfent oedd yn bod ymysg capelwyr blynyddoedd yn ôl. Hwyrach bod poblogrwydd y calendr Adfent wedi gwneud rhywfaint o wahaniaeth i ni. Ond y gwir ydy bod themâu y Nadolig yn apelio mwy atom na themâu Adfent sy'n sôn am farn ac am y diwedd.

Disgwyliad

Un o'r geiriau rydym yn cysylltu â'r Adfent ydy DISGWYL -rhywbeth nad ydym yn dda am wneud -disgwyl i'r tegell ferwi, disgwyl am i'r goleuadau traffig newid, disgwyl am y trê'n, disgwyl am ganlyniadau arholiad ayyb a hefyd disgwyl i addewidion y Beibl gael eu cyflawni.

Rhai cannoedd o flynyddoedd cyn iddyn nhw ddigwydd, roedd Eiseia wedi proffwydo y byddai 'y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch yn gweld goleuni mawr' wrth i fachgen gael Ei eni, ac oherwydd hyn, 'fe drig y blaidd gyda'r oen.'

Oedi a disgwyl

Tra roedd llawer wedi rhoi gorau i ddisgwyl, roedd yna bobl fel Simeon, yr hen ŵr y darllenwn ei hanes yn yr ail bennod o Luc, yn dal i ddisgwyl, yn dal i gofio'r hyn a broffwydodd Eiseia ganrifoedd ynghynt. Duw yn cadw at Ei air. A beth oedd mwy rhyfeddol na'r ffaith bod yr Ymerawdwr Rhufeinig wedi penodi cyfrifiad trwy'r Ymerodraeth fyddai'n achosi i Joseff a Mair fod ym

Methlehem er mwyn cyflawni'r ysgrythur ym mhroffwydoliaeth Micha, 'Ond ti, Bethlehem Efrata sy'n fechan i fod ymhlith llwythau Jwda, ohonot ti y daw allan i mi Un i fod yn llywodraethwr yn Israel.'

Ie, ar ôl disgwyl yn hir, roedd Duw am gyflawni'r hyn roedd Ef ei hun wedi addo trwy Ei broffwydi. Maen nhw'n dweud bod yna rhyw deimlad o ddisgwyl yn bod trwy'r byd yr adeg yma. Roedd ysgolheigion fel Suetonius a Tacitus yn dweud bod y Rhufeiniaid a'r Groegiaid yn disgwyl i ryw beth mawr ddigwydd, ond wrth gwrs, i'r Iddew, disgwyl am y Meseia oedd y peth pwysig.

Baban a barnwr

Ac fel roedd yr Hen Destament wedi proffwydo dyfodiad yr Iesu i'r byd fel Baban, roedd y Testament Newydd yn proffwydo dyfodiad yr Iesu am yr ail dro fel Arglwydd a Barnwr. Soniodd yr Iesu lawer iawn am hyn yn ystod Ei weinidogaeth, ac yn syth ar ôl iddo gael Ei gymeryd oddi wrth Ei ddisgyblion ar ddydd yr Esgyniad, fe glywsant dau

(parhad ar y dualen nesaf)

Cofio a diolch am fywyd y Parch. Adrian Pugh Williams, B.A., B.D., M.Th.

Ganed Adrian Pugh Williams ar 13 Tachwedd 1945 yn Llai Hall Farm, Wrecsam yn fab i Dorothy May ac Ellis Wynne Williams. Bu iddynt symud wedyn i fyw i Abergele.

Gyda'i dad yn Brifathro ar Ysgol Dinorben, Abergele, cafodd Adrian ei addysg gynradd ac uwchradd yn y dref, cyn mynd i Goleg Prifysgol Cymru, Bangor, i astudio Cymraeg, Hanes, ac leithyddiaeth. Oddi yno mynychodd y Coleg Diwinyddol Aberystwyth rhwng 1968 a 1972 i baratoi am yrfa fel gweinidog gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Cafodd ei ordeinio ganddynt yn mis Medi 1972 ym Maengwyn, Machynlleth. Yn Aberystwyth y daethom i adnabod ein gilydd. Talaf deyrnged, felly, i gyfaill a ffrind ers dyddiau coleg hyd ddiwedd ein hoes gwaith yn EBC (1972 i ryw 2012). Diolch am un a fu'n ffrind cyson a chynnes ar hyd y blynyddoedd.

Cyfarfu â Nan yn nosbarth Ysgol Sul Myfyrwyr Capel Twrgwyn, Bangor yn 1965. Priodwyd hwy ar 1 Awst 1970 yng Nghapel Mawr, Dinbych, gyda'r Parchgn. Cynwil Williams, Isaac Jones, W.H. Williams (ewythr Adrian), Richard Lloyd (hen ewythr Nan) yn gweinyddu. Ganed Menai yn 1974 ac yna Hedd yn 1976. Bu'n teuluoedd ni'n dau yn cefnogi'n gilydd ar hyd y ffordd. Ac ymserchai Adrian ym mywyd ei deulu gydol ei ddyddiau.

Ei ofalaeth gyntaf yn 1972 oedd Llandrillo ger Corwen, oedd yn cynnwys Hermon, Llandrillo a Bethel, Cynwyd cyn ychwanegu Saron, Llandderfel yn ddiweddarach. Symudwyd i ofalaeth Blaenau Ffestiniog yn 1977.

Gwasanaethodd y fro honno tan 2004, yn gweithio gydag eglwysi Peniel (Ffestiniog), Bethesda (Manod), Tabernacl a Maenofferen yn y dre. Wedi cau Tabernacl a Maenofferen, ychwanegwyd Eglwys y Bowydd a'r Capel Saesneg yng nghanol y dre. Ar ôl i Gapel Peniel gau, ychwanegwyd Capeli Gorffwysfa, Penrhyndeudraeth, a Chroesor at ei ofalaeth.

Yn 2004, penderfynwyd anelu trwyn y car tua'r môr yn Aberystwyth ac aros yng nghwmni Eglwys St David's, Bath Street, tan iddo ymddeol ar ddiwedd 2012. Elai allan i bregethu hyd y diwedd un – ac yn ystod 2020 a'i chyfnod clo fe feistrolodd y dechnoleg o gynnal oedfaon Zoom! Er i'w iechyd wanhaus beth erbyn hyn, ni wrthododd yr alwad i fynd allan yn enw'i Arglwydd.

Bu'n Ysgrifennydd Henaduriaeth am gyfnod maith yng Ngorllewin Meirionnydd, a gwasanaethu fel Ysgrifennydd Panel Ecwmenaidd yr Eglwys Bresbyteraidd am nifer o flynyddoedd gan deithio'n helaeth i Norwy, Harare a Buenos Aires i gyfarfodydd Cyngor Eglwys'r Byd. Cafodd ymweld â'r India deirgwaith: unwaith i agor llyfrgell er cof am ddiweddar wr Mrs Margaret Jones (St David's), sef y Parch. Basil Jones a fu'n cenhadu ym Mizoram. Ac wedyn i Shillong i bregethu yn yr eglwys ple bu ei ewythr yntau, y Parch. W.H. Williams, yn cenhadu yn Aizawl. Bu'n aelod o weithgor Churches Together in Britain and Ireland, Free Church Federal Council, Enfys, Cytûn: Eglwys ynghyd yng Nghymru, Pwyllgor Cytûn Waunfawr ac yn Ysgrifennydd Cymorth Cristnogol

(Aberystwyth) am nifer o flynyddoedd – ymhlith cyfrifoldebau eraill!

Trwy'r arholiad Lefel A, roedd gan Adrian gymhwyster mewn Almaeneg a phleser iddo oedd arfer yr iaith. Gwrandawai ar yr oedfa Almaeneg ar foreau Sul ac ar raglenni perthnasol eraill, diolch i'r soser lloeren ar ochr y tŷ. Gŵr a chanddo orwelion eang!

Ymddiddorai mewn hanes a byddai wrth ei fodd yn rhannu ei wybodaeth gydag eraill, nid y lleiaf ohonynt ei blant ei hun. Prosiect oedd ar y gweill ganddo yn awroedd ymchwil i effaith dyfodiad y trê'n o Riwabon i'r Bermo ar fywyd cymdeithasol a chrefyddol y cyfnod. Ac eto, hoffai loffa yng ngweithiau R. S. Thomas, Gwenallt, John Spong ac eraill gan ddyfynnu'n helaeth ohonynt dros y blynyddoedd.

Wynebai un o anawsterau bywyd gweinidog – sef yr angen i gadw'n heini ac yn iach. Y beic oedd ei ddewis arf yn y maes hwn. Roedd wrth ei fodd yn mynd ar brynghawn Sadwrn o 'Stiniog i lawr am Harlech – er bod rhaid dychwelyd i fyny'r gelltydd wedyn. Ond mantais y beic oedd y gallai aros a chael sgwrs gydag unrhyw un yr oedd yn ei adnabod. Roedd pobl 'Stiniog, ac Aber yn ddiweddarach, yn ei adnabod yntau a'i feic yn dda!

A dyna ddychwelyd at un o brif bwyntiau gweinidogaeth Adrian – sef ei wasanaeth i bobl.

Bu Adrian yn Gaplan yn yr Ysbyty Goffa yn 'Stiniog am flynyddoedd – yn mynd i ymweld yn selog bob prynghawn Llun gan sgwrsio gyda'r cleifion a'u teuluoedd a chwarae emynau o'i gof ar y piano yn y llofa ddydd.

Gyda'r sylw hwnnw, aeth y cylch atgofion â ni yn ôl i ddyddiau'r Coleg Diwinyddol. Adrian a minnau gan mwyaf (gydag eraill mewn oedfaon Saesneg ac ati) oedd yn cyfeilio i'r gynulleidfa wrth addoli'n rheolaidd yn ein capel ni. Roeddem yn gytûn yn credu bod ein doniau yn rhai addas i hybu a chynnal bywyd ein capeli a'u pobl. Cawsom hwyl wrth arfer y doniau ymarferol hyn. Yn y capel drws nesaf i'r mans yn Y Manod, byddai Adrian (a minnau ambell dro) yn eistedd wrth yr organ bib ac yn teimlo'r sain hyfryd yn ein codi yn yr ysbryd a'n atgyfnerthu i'n gwaith. Ac o ailadrodd y fath brofiad mewn capeli diri drwy Gymru, rhoddwyd gwasanaeth aml a phwrpasol. Addoli, ymroi, gwasanaethu – a chael blas wrth wneud beth bynnag fyddai hinsawdd grefyddol y cyfnod.

Caiff un o'n plant ni'r gair olaf fan hyn: "Mae'r chwerthiniad wedi mynd!"

Parch Roger Ellis Humphreys

Ansicerwydd a Gobaith (parhad)

ddyn mewn dillad gwyn yn dweud: 'Yr Iesu hwn sydd wedi Ei gymryd oddi wrthy ch i'r nef, bydd yn dod yn yr un modd ag y gwelsoch Ef yn mynd i'r nef.'

Dal i ddisgwyl

Roedd yna rywrai ymysg yr Eglwys Fore oedd yn disgwyl i hyn ddisgwyl yn fuan iawn ac roedd yna bobl a roddodd heibio weithio am eu bod yn disgwyl iddo ddisgwyl unrhyw ddiwrnod. Ond roedden nhw wedi anghofio geiriau'r Iesu ei Hun y byddai yn dod yn sydyn fel lleidr yn y nos pan oedd neb yn Ei ddisgwyl, fel dyfodiad y priodfab i'r briodas ac yn canfod pump o ferched ffol nad oeddynt yn barod am nad oedd ganddyn nhw olew yn eu lampau a'r drws yn cael ei gau yn eu hwynebau. Mae'r ddysgeidiaeth yma yn Mathew

pennod 24 yn gorffen efo geiriau'r Iesu, 'Byddwch felly barod, canys yn yr awr ni wyddoch y daw Mab y Dyn.'

Bod yn barod heddiw

Mae'r diweddar Dr. Tudur Jones yn dweud bod disgwyl am yr ailddyfodiad yn rhan hanfodol o'r Adfent. 'Y mae cyhoeddi Ailddyfodiad Iesu Grist yn gymaint rhan o'r efengyl a chyhoeddi Ei Atgyfodiad, a hynny oherwydd bod Crist Ei Hun wedi ei wneud yn rhan hanfodol o'i Ddysgeidiaeth.'

Mewn dyddiau pan fo'r holl ansicerwydd o'n cwmpas ni, rhown ein ffydd yng ngair Duw a'r holl addewidion sydd ynddo.

(Parch Eric Greene, Darpar Lywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd)

Adnabod Cymeriadau'r Testament Newydd – Yr Efengylau

Cyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: https://www.ysgolsul.com/?page_id=804

Gwers 22

Adfent 2: Mair, mam Iesu

Gweddi

Nefol Dad, plygwn yn wylaidd o'th flaen a meddwl am un sy'n cynrychioli mamau'r byd. Pan fydd ein sylw yn troi'n reddfodol at y baban Iesu, mae'n bwysig ein bod yn cofio'r fam, a roddodd enedigaeth i'w chyntaf-anedig gan brofi'r holl straen corfforol, heb gwmni ei theulu ei hun, mewn sefyllfa ag anfanteision amlwg. Wrth feddwl am ei hanes, cofiwn am y miliynau o ferched beichiog yn ein byd heddiw sy'n wynebu anfanteision o bob math. Amen.

Darlleniad Luc 1: 26–66; Ioan 19: 23–7.


Cyflwyniad

O blith holl wragedd y Testament Newydd, prin fod unrhyw un a gafodd fwy o sylw gan yr arlunwyr a'r cerflunwyr na'r 'wraig ddistadl' hon. Daw i lwyfan hanes yn ei distadledd a'i diniweidrwydd, ac erys yn enw amlwg a phwysig i Gristnogion yn gyffredinol. Cyflwynir hi gan Mathew a Luc yn naratif geni Iesu, ac mae'n amlwg fod Luc wedi cael gwybodaeth nad oedd ar gael i Mathew. Mae hi'n cynrychioli'r anamlwg a'r dibwys mewn cymdeithas, sy'n gyson â gwerthoedd Iddewiaeth yn amser Iesu. Dyna oedd agwedd cenhedloedd eraill y byd ar y pryd, ac yn anffodus, bydd rhai diwylliannau yn dal i osod merched ar haen is na'r dynion heddiw.

Ychydig iawn a wyddom am ei chefnid, ac eithrio bod Luc wedi deall ei bod yn perthyn i lwyth Jwda ac o linach Dafydd. Dywedir i Ioan dderbyn Mair i'w gartref ar ôl y croeshoeliad, a thybir, yn ôl traddodiad, iddi fyw a marw yn Efferus. Nid oes unrhyw ddatganiad Beiblaidd am ei morwyndod, er bod y term 'y Forwyn Fair' yn cael ei ddefnyddio gan amryw.

Myfyrdod

Bydd y drafodaeth am statws merched yn bwysig am lu o resymau, ac er bod brennesau wedi bod yn Lloegr a Rwsia a llawer o wledydd Ewropeaidd eraill, a merched wedi dod i'r amlwg mewn sawl



Y cyhoeddi i Fair gan Syr Edward Burne-Jones (1857)
Llun gan [Birmingham Museums](#)

gwlad, eithriadau ydynt. Ni wnaeth Elisabeth I wella statws merched yn ei dydd, ac anodd gweld bod Mrs Margaret Thatcher wedi unioni camau cymdeithas drwy wneud llawer i wella cyfleoedd y ferch chwaith. Mae'r Eglwys Babyddol yn dal â phroblem o ran caniatáu i ferched fod yn offeiriaid, heb sôn am estyn iddynt gyfrifoldebau uwch yn eu strwythurau eglwysig. Camodd yr Eglwys Wladol ym Mhrydain ymlaen ar y daith o ganiatáu i ferched fod yn offeiriaid ac esgobion, ond erys llawer yn y drefn eglwysig honno yn anghyfforddus gyda'r syniad.

Eto, wrth sôn am enedigaeth Iesu, dewisodd Duw ferch anamlwg, gyffredin a chwbl ddbwys i Iddewiaeth, i fod yn fam i'r plentyn Iesu. Roedd hwn yn bwyslais pwysig na wnaeth yr Eglwys ar draws y cyfandiroedd a'r canrifoedd ei gydnabod, a gweld bod gwŷr a gwragedd yn gyfartal yng ngolwg Duw. *Ai'r Eglwys sy'n arwain cymdeithas, neu a yw'r Eglwys yn dilyn eraill wrth sôn am gyfiawnder i wragedd mewn bywyd cymdeithasol?* Gwelwyd llawer o newid yn ystod ail ddegawd yr 21g; tybed a fydd 2030 yn tystio i fwy o

newidiadau o blaid gwragedd yn benodol ac y bydd hawliau merched wedi eu sicrhau ym mhob gwlad ar draws y byd?

Gweddi

Arglwydd Dduw, diolch i ti am ddewis Mair, dyweddi Joseff y saer, yn fam i Geidwad byd, a bod y Beibl yn ei chydabod yn amlwg iawn. Diolchwn am ein mamau ein hunain, gan gofio iddynt wynebu poen ac ing yn ein geni ni, a'u bod wedi poeni a gweddio drosom ar hyd y daith. Gwerth-fawrogwn fod y reddf famol yn nodwedd anhygoel a hardd, a chofiwn hynny wrth glywed am bob genedigaeth. Boed dy fendith ar famau'r byd heddiw, ac y byddant yn meithrin plant a fydd yn gweld bod cariad yn well na chasineb, a bod gobaiith yn medru ffynnu yn y tir mwyaf diffaith. Amen.

Trafod ac ymateb

- Mae'r gwaith o fod yn fam yn un pwysig eithriadol a ffurfiannol i unrhyw blentyn a gaiff y fraint o dderbyn gofal ei fam. Faint o synnwyr o'r fraint a'r cyfrifoldeb a roddwyd iddi hi i fagu 'Mab y Goruchaf' (adn. 32) oedd gan Mair, tybed?
- Sut mae cwestiwn Mair i'r angel Gabriel (2:34) yn wahanol i gwestiwn Sachareias i'r un angel (1:18) ac yn arddangos agwedd wahanol o ran yr hyn sy'n bosibl trwy lygaid ffydd?
- Myfyriwch ar Emyr Mawl Mair (Luc 2:46–55). Mae'n amlwg fod gan Mair afael da ar rediad yr Ysgrythurau Iddewig ac yn adleisio rhai o ganeuon yr Hen Destament yn ei hemyn hithau o foliant i Dduw. A ydym ni'n euog o ddibrisio a chyfrif yn ddistadl rai sydd â phrofiad ysbrydol pwerus?
- Trafodwch y cwestiwn yn y paragraff olaf **.

Cyfeiriad Golygydd Y PEDAIR TUDALEN

Huw Powell-Davies

pedair.tudalen@gmail.com

neu Llifor, 60 Ffordd Rhuthun,
Yr Wyddgrug, CH7 1QH

Anfonwch eich erthyglau, hysbysebion
a.y.y.b. i'r cyfeiriad uchod.

Mae'r Pedair Tudalen Gydenwadol yn cael eu cynnwys yn rhan o bapurau wythnosol tri enwad, sef *Y Goleuad* (Eglwys Bresbyteriaid Cymru), *Seren Cymru* (Undeb Bedyddwyr Cymru) a'r *Tyst* (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

Adnoddau lu gan lawer mudiad

Yn gryno i gyd o ddilyn y ddolen yma

Ar gyfer Nadolig 2020, a fydd yn Nadolig gwahanol iawn i'r hyn rydym wedi arfer ag o mewn blynyddoedd arferol, mae Cyngor yr Ysgolion Sul wedi creu gwefan arbennig er mwyn crynhoi'r holl adnoddau Cymraeg Cristnogol sydd wedi eu paratoi gan wahanol enwadau a mudiadau. Mae gofod arbennig wedi ei greu ar www.cristnogaeth.cymru/Nadolig er mwyn arddangos yr holl adnoddau sydd ar gael i eglwysi ac ysgolion Sul.

Ceir yma adnoddau y mae modd i chi eu rhannu ag eraill,

gan gynnwys ffilmiau byr, deunydd defosynol a gwybodaeth am lyfrau i blant ac oedolion. Wrth i fwy o adnoddau newydd ein cyrraedd, byddant yn cael eu llwytho ar y wefan, felly cofiwch alw yn ôl yn rheolaidd er mwyn gweld yr adnoddau diweddaraf.

Cofiwch hefyd, os oes gennych chi adnoddau addas i'w rhannu – boed yn sript neu ffilm, mae croeso i chi eu gyrru at aled@ysgolsul.com er mwyn eu cynnwys.

O fewn ein hadran Nadolig ar y wefan hon ceir:

Adnoddau Newydd 2020

Ymysg yr arlwy yno mae:

Ffilm newydd ar gyfer Nadolig 2020 wedi ei chreu gan Gwyn Rhydderch, sript gan Gwenda Jenkins ac yn cael ei chyflwyno'n hwyliog gan Martyn Geraint. Yn y ffilm 12 munud yma cawn wir ystyr y Nadolig yn cael ei esbonio'n glir gan Martyn. Mae modd ei lawrlwytho a'i defnyddio mewn oedfa dros y Nadolig neu ei rhannu ar eich tudalen Facebook.

Adnoddau cenhadol Cyngor yr Ysgolion Sul ar gyfer 2020

Mae dau adnodd newydd penodol, sef: *Clywch lu'r Nef yn seinio'n un!*

Ar gyfer Nadolig 2020 mae Cyngor yr Ysgolion Sul wedi paratoi cyfres newydd o adnoddau a fydd yn galluogi eglwysi i gyflwyno neges a llawenydd y Nadolig o fewn ein cymunedau mewn ffordd drawiadol ac effeithiol. Yn ganolbwynt i'r cyfan mae cylchgrawn lliwgar, 16 tudalen sy'n cynnwys darlenniadau Beiblaidd, erthygl yn sôn am 'Beth yw'r Nadolig?' gan Arfon Jones, posau, croesair, rysait cacen Nadolig, cerddi, gweddïau, tudalen i'r plant, a nifer o erthyglau diddorol. Mae modd prynu copïau o'r cylchgrawn am 99c yr un, neu becynnau o 100 copi am £50 (50c yr un). Hefyd, mae modd archebu copïau â thudalen ôl a all gynnwys manylion lleol eich eglwys/amseroedd oedfaon Nadolig ayyb.

**Clywch lu'r nef yn seinio'n un,
henffych eni Ceidwad dyn!**


Am wybod mwy?

Ewch i: www.cristnogaeth.cymru

Yn ogystal hefyd, mae baner liwgar ar gyfer ei harddangos y tu allan i'ch capel (2 fetr wrth 0.5 metr) ar gael am £25 yr un.

Comic Beiblaidd y Nadolig


Wedi ei ailargraffu ar gyfer 2020 mae comic Nadolig a gynhyrchwyd ar y cyd â Scripture Union Cymru ar gael, sef *Comic Beiblaidd Nadolig*. Mae hwn yn gomic lliwgar, 16 tudalen, sy'n cynnwys stori'r Nadolig ar ffurf comic a thudalennau sy'n cynnwys cwis Nadolig, ffeithiau am y Nadolig ac amrywiol bosau. Maent yn ddelfrydol i'w cyflwyno i blant oed cynradd, ac ar gael am y pris arbennig o 75c yr un



mewn pecynnau o 10, neu 99c yr un. Gellir hefyd archebu pecynnau mawr o 50 am £35 neu 100 am £50. Mae hyn yn cynnwys cost cludiant. Cysylltwch â Chyngor yr Ysgolion Sul i archebu.

Adnoddau Newydd Cymdeithas y Beibl ar gyfer 2020

Yn ôl eu harfer, mae gan Gymdeithas y Beibl adnoddau newydd ar gyfer 2020 gan gynnwys llyfryn i'w gyflwyno i blant, ffurf ar wasanaeth ar gyfer oedfa Nadolig sy'n cynnwys cyflwyniad PowerPoint o'r stori, sef 'Mae'n Dechrau Draw ym Methlehem – Rhigwm Stori'r Geni ar gyfer Nadolig'. Mae'r llyfryn newydd i blant, *Mae'n Dechrau Draw ym Methlehem – Rhigwm Stori'r Geni ar gyfer Nadolig eleni*, yn rhoi golwg newydd i ni ar y geni gyda rhigymau hyfryd wedi eu haddasu o'r fersiwn gwreiddiol gan Bob Hartman a lluniau bywiog gan Mark Beech. Mae modd archebu copïau o'r wefan.




Bagiau Bendith y Nadolig

Wrth inni nesáu at dymor yr Adfent, mae'n debygol y bydd y Nadolig yn teimlo'n dra gwahanol eleni. Er efallai na fydd yn bosibl inni groesawu cynifer o ymwelwyr i wasanaethau traddodiadol, hoffem dynnu eich sylw at un syniad sy'n eich galluogi chi i fynd â bendith y Nadolig i'ch cymuned. Mae'r prosiect 'Bagiau Bendith' yn syniad syml iawn sy'n gwahodd eglwysi i rannu bagiau anrhegion bach gyda chymdogion, teuluoedd, cartrefi gofal, hosteli, llochesi ac aelwydydd yn eu cymunedau lleol. Yn ogystal â bod yn anrheg, mae'r bag bach hefyd yn gyfle i atgoffa pobl o wir obaith y Nadolig. Ceir mwy o wybodaeth ar y wefan.

Byw Ben i Waered: pedwar myfyrdod ar y thema 'Plygain – traddodiad i'w rannu'

Adnodd Cymraeg a dwyieithog gan yr Eglwys Fethodistaidd yn cynnwys pedwar myfyrdod ar gyfer cyfnod yr Adfent a'r Nadolig. Seiliwyd y myfyrdodau ar gyfoeth carolau traddodiadol y plygain. Ar ddiwedd pob myfyrdod ceir cwestiynau i ennyn trafodaeth ac ar gyfer rhoi ffydd ar waith yn ein bywydau ac o fewn ein cymunedau. Mae dolen i lawrlwytho'r adnodd ar ein gwefan.



ar gyfer Nadolig 2020

www.cristnogaeth.cymru/Nadolig

Apêl Nadolig 2020 Cymorth Cristnogol

Mae gan Gymorth Cristnogol apêl Nadolig arbennig ar gyfer 2020. Maent hefyd wedi recordio carol newydd sbon gan Meilyr Geraint a Cadi Gwyn. Eto, mae'r dolenni perthnasol ar ein gwefan.



CYFRES FFILMIAU'R NADOLIG

Mewn prosiect ar y cyd ag Eglwys Bresbyteraidd Cymru mae'r Cyngor Ysgolion Sul wedi cynhyrchu cyfres o ffilmiau byr y gellid eu defnyddio mewn gwasanaethau Nadolig a gwasanaethau carolau. Cynhyrhydd y ffilmiau yw Gwyn Rhydderch; diolch am ei waith ef ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn paratoi'r adnodd gwerthfawr yma sydd at ddefnydd eglwysi o bob enwad a thraddodiad. Mae'r gyfres yn cynnwys y ffilmiau canlynol:

'Pam Dathlu'r Nadolig?' – ffilm fer, 6 munud, gan Arfon Jones

Darlleniad o Mathew 1:18–25 (Geni Iesu y Meseia) ar ffilm




Darlleniad o Luc 2:18–25 (Y Bugeiliaid a'r Angylion) ar ffilm

'Yn y Dechreuad ...' – myfyrdod 3 munud ar ffilm

'Gweddi'r Nadolig' – gweddi 3 munud yn cael ei chyflwyno ar ffilm.

'Wele, cawsom y Meseia'

Hefyd ar gyfer oedolion mae llyfryn lliwgar 'Wele cawsom y Meseia', 20 tudalen lliw llawn sy'n cynnwys darlleniadau, gweddiâu a myfyrdodau Nadoligaidd. Maent ar gael am 50c yr un neu becyn o 100 am £30. Ceir mwy o wybodaeth yn ein hadran adnoddau cenhadol.



Yn yr adran 'Deunydd Ffilm Nadolig', ceir 4 categori o ffilmiau byr, sef:

- carolau cynulleidfaoel a chaneuon Nadoligaidd,
- ffilmiau'n cynnwys myfyrdodau i oedolion,
- carolau a chaneuon Nadolig i blant,
- cartwnau Nadolig i blant.

Yn yr adran 'Adnoddau Nadolig Defosiynol', mae tua 500 o eitemau, yn cynnwys myfyrdodau, sgetsys, gweddiâu a darlleniadau – y cyfan ar gael yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho a'u rhannu mewn oedfaon dros y Nadolig.

Ceir adran benodol ar gyfer gwasanaethau Cristingl.

Mae dathlu Cristingl yn ffordd o rannu neges y ffydd Gristnogol. Golyga Cristingl 'Goleuni Crist' ac mae'n symbol o'r ffydd Gristnogol. Ar ein gwefan mae modd lawrlwytho pob

dim sydd ei angen arnoch i gynnal gwasanaeth Cristingl yn yr awyr agored. Dyma ystyr yr elfennau yn y Cristingl:

- Mae'r oren yn grwn fel y byd.
- Mae'r gannwyll yn dal a syth, ac yn rhoi goleuni yn y tywyllwch fel cariad Duw.
- Mae'r ruban yn mynd o amgylch y 'byd' ac yn symbol o waed Crist pan fu farw drosom ar y groes.
- Mae'r pedair ffon yn pwyntio i gyfeiriadau gwahanol ac yn cynrychioli Gogledd, De, Dwyrain a'r Gorllewin, a hefyd yn cynrychioli'r pedwar tymor.
- Mae'r ffrwythau a'r cnau (ac ambell dro melysion!) yn cynrychioli ffrwythau'r ddaear, wedi eu maethu gan yr haul a'r glaw.

Yn yr adran 'Adnoddau a Phosteri i'w Lawrlwytho' ceir detholiad o luniau gydag adnod arnynt i eglwysi ac unigolion eu rhannu ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Adran Cardiau Nadolig

Mae yna amrywiaeth o gardiau Nadolig Cymraeg ar gael ac a werthir er budd gwaith yr Ysgol Sul yng Nghymru, gyda chyfarchiad ac adnod ar bob cerdyn, ynghyd â llun lliw pwrpasol. Mae yna gynllun arbennig ar gyfer eglwysi ac ysgolion Sul. Am bob pecyn a werthir, bydd 50c yn mynd i gronfa eich ysgol Sul chi. Dyma gyfle gwych felly i gefnogi Cyngor yr Ysgolion Sul a'ch ysgol Sul leol chi! Mi fyddwch chi'n talu £1.50 y pecyn amdanant ac yn eu gwerthu am £2 y pecyn. Cynigir y cardiau ar gynllun dychwel neu werthu! Mwy o wybodaeth a lluniau ar y wefan.

Rhannu neges y Nadolig trwy gyfnod yr Adfent – trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol

Eleni, bydd Cyngor yr Ysgolion Sul, trwy ei dudalennau Facebook, yn rhannu adnoddau yn ddyddiol y gall eraill eu defnyddio a'u rhannu mor eang â phosib.

Ar dudalen Beibl Byw / Cristnogaeth Cymru, byddwn yn rhannu dau fyfyrdod bob dydd, yn dilyn hanes y Goeden Jesse, gan rannu stori'r Beibl cyfan dros y 28 diwrnod. Bydd myfyrdod dyddiol i oedolion yn ogystal â fersiwn arbennig i deuluoedd.

Ar dudalen Cyngor yr Ysgolion Sul, byddwn yn rhannu gweithgaredd dyddiol i blant, yn cynnwys darlleniad, gweddi a llun i'w liwio.

Ar dudalen Emynau Gobaith, byddwn yn rhannu carol newydd bob dydd.

Ar dudalen Gair o Weddi, byddwn yn rhannu gweddi Nadoligaidd bob dydd.

Ar dudalen beibl.net, byddwn yn rhannu adnod ddyddiol, yn ogystal â darlleniadau i'n harwain at y Nadolig.

Cofiwch hefyd am yr adnoddau sydd ar wefan www.beibl.net a www.gair.cymru a'r carolau sydd ar wefan www.gobaith.cymru

Aled Davies,

Cyfarwyddwr Cyngor yr Ysgolion Sul / Cyhoeddiadau'r Gair

Cyfeiriad/Address: Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH. Ffôn/Tel: 01766 819120 Symudol/Mob: 07894 580192 Gwefan/Website: www.ysgolsul.com Eboest/Email: aled@ysgolsul.com

Blodeugerdd Waldo: Teyrnged y Beirdd

Golygydd: Eirwyn George – Gwasg y Lolfa, £7.99

Rwy'n cofio darllen ychydig yn ôl fod Waldo o'r farn mai pwrpas barddoniaeth yw rhoi mwynhad, a hynny er mor ddfrifol a dwys yw'r testun. Wel, cefais fwynhad aruthrol o ddarllen y flodeugerdd hon am y dyn ei hun. Gwnaeth Eirwyn George gymwynas fawr â ni wrth gasglu cynifer o gerddi am Waldo mewn un gyfrol hylaw, 100 tudalen, a'r cerddi hynny'n rhychwantu dros drigain o flynyddoedd.

Fel y dywed yn ei ragair, diddordeb personol oedd y cymhelliad i fynd ati i gasglu cerddi a chyhoeddi blodeugerdd goffa i Waldo. Mae ynddi drigain a dwy o gerddi ac englynion gan ddeugain o feirdd, ac mae'r amrywiaeth yn cyfoethogi'r gyfrol gyda phob math o ffurfiau a mesurau. Ynddi ceir cynifer o leisiau gwahanol hefyd, nifer wedi ein gadael erbyn hyn ond pob un yn llawn edmygedd o waith Waldo.

Dosbarthwyd y gyfrol yn bedair adran. Mae'r gyntaf yn cynnwys cerddi teyrnged a gyfansoddwyd i Waldo yn ystod ei oes, ac yn yr ail ran ceir cerddi coffa'r blynyddoedd yn dilyn ei farw yn 1971. Yn y drydedd adran ceir cynnyrch y blynyddoedd yn dilyn canmlwyddiant ei eni yn 2004, ac yna i gloi ceir casgliad o englynion. Mae nifer o feirdd wedi cyfrannu at sawl un o'r cyfnodau, beirdd megis James Nicholas, T. Llew Jones, Dic Jones, Alan Llwyd ac Eirwyn George.


Mae'r cerddi a luniwyd yn ystod bywyd Waldo gan ei gyfoedion a'i gyfeillion yn aml yn cyfeirio at ddigwyddiadau penodol a fu'n rhan o safiad Waldo dros ei fro, ei iaith a thros heddwwch. Cyfeirir at ei gyfnod yn y carchar gan sawl bardd, ac mae T. Llew Jones yn adleisio'r gefnogaeth i ymgyrch Waldo dros heddwwch drwy wrthod talu treth incwm:

Ynghanol ein bydolrwydd
Diolch fod un, ta beth,
Yn ddigon egwyddorol
I wrthod talu'r dreth.

Yn yr adran hon hefyd mae cerdd rymus gan T. E. Nicholas, Niclas y Glais, un a aned ar lethrau'r Preselau ac a garcharwyd hefyd yn Abertawe am ei ddaliadau dros heddwwch flynyddoedd ynghynt. Mae'n darlunio'r ystafell gydag ymwelwyr a chefnogwyr Waldo:

Eisteddai Waldo yn llawen a syn
Â'i lyfr a'i bensel a'i bapur gwyn,
A Chymry gwlatgar yn llenwi'r gell,
Cyfeillion y bardd o agos a phell.

Ceir nifer o gerddi coffa yn y cyfnod sy'n dilyn marwolaeth Waldo yn 1971 ac yn sgil dadorchuddio'r gofeb iddo ym Mynachlog-ddu yn 1978. Mae'r cyfeiriadau at ymgyrchoedd y bardd a cherddi'r gyfrol *Dail Pren* yn britho'r



cerddi hyn. Hoffais yn fawr y gerdd 'Cip ar Waldo' gan Eirwyn George, golygydd y gyfrol, un a gafodd y fraint o adnabod Waldo a bardd sydd wedi cyfannu cyfnod y flodeugerdd. Dyma ran o'r gerdd hon:

A gweld Un yn eu canol
Yn uwch o ben ac ysgwyddau
Yn rhodio'r maes â rhychwant ei oleuni'n
Gafael ynom
Yn nhawelwch iasol y Ddau Gae.

Teimlais yn aml wrth ddarllen y cerddi fod y beirdd yn llwyddo i ychwanegu a chyfoethogi barddoniaeth Waldo ei hun wrth ddarlunio'u profiadau personol. Dysgais lawer amdano wrth ddarllen y gyfrol.

Fe'm swynwyd gan gywydd Mererid Hopwood, un o ddwy wraig yn unig sydd â cherdd yn y gyfrol. Mae cynildeb y dweud yn nodweddiadol ohoni, un sydd â'i gwreiddiau teuluol yn sir Waldo ac yn un o'i ffans mwyaf. Mae'r cywydd yn cychwyn fel hyn:

Ynddo fe cawn neuadd fwy
o hyd, pob wal yn adwy,
ac yn y bwlch gwyn ein byd,
cawn fan lle cân y funud
gân daer holl genadwri
stori'r awr; di-stŵr yw hi;

Ac ar y dudalen ganlynol mae perl o gywydd gan Eurig Salisbury, gan bwysleisio cyfoeth y beirdd sydd wedi eu cynrychioli yn y gyfrol. Fe yw un o'r beirdd ifancaf a gynrychiolir yn y gyfrol, ac fel eraill wedi dod i edmygu Waldo drwy ei farddoniaeth a darllen amdano.

Mae cerdd rydd Menna Elfyn yn seiliedig ar gof plentyn o glywed am safiad Waldo ac yn cyferbynnu'n odidog â'r ddau gywydd hyn. Dyna sy'n wych am yr amrywiaeth o ganu a geir yma, gan

ddangos sut mae ein barddoniaeth wedi esblygu yn ystod y cyfnod hwn. Mae hon yn gyfrol hyfryd ym mhob ystyr, a dylai fodloni'r rhai fu'n gyfrifol am ei hysgogi.

Pwysleisia rhai o'r cerddi mwy diweddar mor gyfoes ac o flaen ei amser yr oedd Waldo. Dywed Wyn Owens yn ei gywydd:

Enw a ddeil i linach
Y broydd hyn, bardd yw ef
I'n dyddiau a'n dioddef.

Mae'r detholiad o englynion sy'n cloi'r flodeugerdd hefyd yn crynhoi bywyd a barddoniaeth Waldo yn drawiadol iawn. Beth am un gan Ceri Wyn Jones fel tamaid i aros pryd?

Tra bo iaith byd natur bydd – geiriau
y gŵr mwyn o'r newydd [mawr
yn mydryddu'r awyr rydd
a throi'r waun yn athronydd.

Gallwn ddyfynnu'n helaeth o'r cerddi, a byddaf yn siŵr o estyn amdani i'w darllen yn rheolaidd.

Ond mae'r flodeugerdd yn fwy na hynny hefyd: mae'n cynnwys bywgraffiad byr o Waldo, nodiadau am rai o'r beirdd a phwt o wybodaeth am ambell gerdd, sy'n hynod werthfawr. Gosodwyd y cyfan gyda darlun nodweddiadol o'r Preselau gan Wynne Melville Jones ar y clawr, ac mae'r gyfrol yn gyfanwaith sy'n gwneud cyfraniad amhrisiadwy i'n barddoniaeth ac yn anrheg Nadolig ardderchog.

Geraint Roberts

S4C

Sul, 6 Rhagfyr

Dechrau Canu Dechrau Canmol
nos Sul, am 7:30yh

Yr wythnos yma Nia fydd yn sgwrsio gyda Cynan Llwyd i glywed mwy am nod apêl Nadolig Cymorth Cristnogol eleni, ac fe gawn ddysgu am gefndir carol arbennig sydd wedi ei chyfansoddi ar gyfer yr apêl. Daw'r carolau o bob rhan o Gymru.

BBC | radio
cymru

Oedfa Radio Cymru
6 Rhagfyr am 12:00yh

yng ngofal
Delwyn Sion, Caerdydd –
dan seren yn y Dwyrain

O hwnt ac yma

CWESTIWN Y DOETHION

'Ble mae'r hwn a anwyd?' Dyna gwestiwn y tri Gŵr Doeth wedi iddynt gyrraedd Jerwsalem. Fe wyddom i gyd am y profiad o gollu'n ffordd mewn lle dieithr, a hynny, yn amlach na pheidio, wrth i ni nesu at ben ein taith. Ar filltiroedd olaf eu taith hir o'r Dwyrain pell, wedi dilyn y seren, a hwythau wedi dod i olwg dinas Jerwsalem, maen nhw'n colli eu ffordd. Cael eu hunain ym mhalas y brenin y maen nhw, gan eu bod yn tybio eu bod yn gwybod ble roedd brenin wedi ei eni.

Dros ŵyl y Nadolig fe awn ninnau ar ein pererindod flynyddol at grud y baban Iesu. Ond y mae perygl i ninnau, fel y tri Gŵr Doeth, fynd ar goll am ein bod yn tybio ein bod yn gwybod ble y mae. Ond mae'r baban hwn i'w gael mewn lleoedd rhyfedd ac annisgwyl.

Yn ei lyfr *God of Surprises* dywed y diweddar Gerald Hughes fod Duw yn ein cyfarfod yn lleoedd dirgel ac annhebygol ein bywydau ond inni fod yn ddisgwylgar ac yn agored iddo. Heddiw, fel erioed y mae lle i ofni ein bod yn methu â'i adnabod am ein bod yn tybio ein bod yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn: 'Ble mae'r hwn a anwyd?'

Ateb yr *anffyddiwr* ydi fod y Crist hwn yn perthyn i'r gorffennol pell: ar y gorau nid yw'n ddim mwy na ffigur annelwig ar goll yn niwloedd hanes ac yn gymysg â chwedloniaeth ac ofergoeliaeth. Perthyn i'r gorffennol y mae ac o ganlyniad y mae'n amherthnasol i'n hoes oleuedig ni.

Ateb y *rhamantydd* ydi fod y Baban i'w ganfod yng nghanol y celyn a'r cardiau, y trimins a'r tinsel. Ac mae'r *crefyddwr* yr un mor bendant ei ateb. Mae Iesu i'w ganfod ymysg pethau crefydd a chapel. Ond y mae perygl inni i gyd gollu'r ffordd i Fethlehem am ein bod yn gaeth i'n rhagdybiaethau ac i hen draddodiadau.

Mewn lle gwahanol iawn i'w rhagdybiaethau y cafodd y tri Gŵr Doeth

hyd iddo yn y diwedd. Syrpreis iddynt oedd cael hyd iddo mewn preseb. Bob blwyddyn darlledir y Gwasanaeth Naw Llith Naw Carol o Gapel Coleg y Brenin, Caergrawnt. Y tu cefn i'r allor yn y capel hwnnw y mae darlun enwog Reubens o'r Doethion ar eu gliniau yn y gwellt yn addoli'r Baban yn ei grud. Fe'i gwelir yn eu gwisgoedd hardd yn cyflwyno rhoddion drudfawr iddo. Ond yr hyn sy'n drawiadol yw bod yr arlunydd wedi llwyddo i gyfleu'r syndod ar wynebau'r Tri – y syndod o weld brenin mewn beudy, o weld gwaredwr ymysg y gwartheg.



I ganfod y Baban ynghanol ein dathliadau y mae'n bwysig ein bod ninnau yn ei geisio yn y manau hynny lle mae i'w gael ac nid cael ein camarwain gan ein rhagdybiadau. Yn hytrach cawn hyd iddo yn yr un manau ag y cafodd y Doethion hyd iddo.

Yn gyntaf y mae i'w ganfod ym mynwes teulu. Gyda Mair ei fam a Joseff y cafodd y Doethion ef. A byth oddi ar y Nadolig cyntaf y mae Cristnogion wedi pwysleisio pwysigrwydd a sancteiddrwydd aelwyd a chartref.

Yn ein cartrefi y daeth y rhan fwyaf ohonom i ganfod Iesu Grist gyntaf. Cariad a gofal rhieni a'u hesiampl a'u dylanwad hwy a argraffodd arnon ni gariad a phrydferthwch ein Gwaredwr. Ond erbyn heddiw y mae secwlariaeth a'r cefnu ar grefydd yn arwain at danseilio bywyd teulu gyda'r canlyniad fod nifer fawr o gartrefi'n chwalu ac effaith hynny ar gymdeithas ac ar blant a phobl ifanc yn arbennig yn

amlwg. Y mae cyfrifoldeb arnom fel Cristnogion amser y Nadolig i sicrhau fod Iesu Grist yn cael ei le ar ein haelwydydd.

Lle arall i ganfod y Baban yw *ymhlith y tlodion*. Nid yng nghanol cyfoeth a moethusrwydd palas y brenin yn Jerwsalem yr oedd hwn, ond '*heb le yn y llety, heb aelwyd, heb wely*.' Nid mewn digonedd a chyfoeth y mae'r Baban Iesu i'w ganfod heddiw, ond ble bynnag y mae pobl mewn tristwch, mewn adfyd, ac mewn cynni. Arwyddocâd yr ymgnawdoliad yw bod Duw wedi dod mewn crawd i'n daear ni ac wedi ei uniaethu ei hun â dyn yn ei gyflwr isaf, yn ei wendid, ei dlodi a'i drallod. Yn drydydd, y mae i'w ganfod *ymhlith y tangnefeddwyr*. Y mae yn yr hanes gyferbyniad bwriadol rhwng byd Cesar Awgwstws a'i filwr â byd y bugeiliaid ac awyrgylch y stabl ym Methlehem. '*Gwyn eu byd y tangnefeddwyr*' meddai Iesu, a '*Gwyn eu byd*' y rhai sydd, heddiw, yn byw yn ôl egwyddorion teyrnas y Baban a anwyd dwy fil o flynyddoedd yn ôl, '*canys hwy a elwir yn blant i Dduw*.'

Elfed ap Nefydd Roberts

(Cynhwysir yr ysgrif olaf hon gan y diweddar Barch Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts drwy ganiatâd a chydysyniad Eiddwen Jones)

Gweddi am dangnefedd

'Yn wir, y mae ei waredigaeth yn agos at y rhai sy'n ei ofni, fel bod gogoniant yn aros yn ein tir. Bydd cariad a gwirionedd yn cyfarfod, a chyfiawnder a heddwch yn cusanu ei gilydd. Bydd ffyddlondeb yn tarddu o'r ddaear, a chyfiawnder yn edrych i lawr o'r nefoedd.'

Salm 85:9-11.

Arglwydd Iesu Grist, Dywysog ein Tangnefedd fe'th geisiwn di.

Ar draws y ddaear oll yn grwn clywn am rwygiadau mewn cymdeithas – y cyfoethog yn ymgyfoethogi, y tlawd yn dlotach o ddydd i ddydd. Clywn am ryfeloedd a sôn am ryfeloedd. Clywn am afiechydon a heintiau'n bygwth bywydau miliynau. O Grist, er na haeddwn hyn a wneid di 'gusanu euog fyd' yn dy ras a'th gariad.

Arglwydd Iesu Grist fe'th geisiwn ar ran ein byd. Cyffeswn ein hunanoldeb. Cyffeswn ei fod yn rhywyddach gau'n llygaid a

chaledu'n calonnau rhag gweld a chlywed angen byd nag ydyw i ymateb i ddiodeffaint.

O Grist, tywysog ein tangnefedd, Arglwydd ein heddwch ni, trugarha wrth ein byd. Lle mae rhyfel a thrais, bygythiad ac ofn, ansicrwydd a phryder tyrd Arglwydd Iesu, drwy dy Ysbryd Glân â heddwch i'n byd.

O Arglwydd, Dduw, Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, dywysog ein heddwch ni, caniatâ i ninnau ymrwymo i weithio o blaid heddwch er lliniaru poen y byd. Caniatâ i ninnau yn dy eglwys fod yn rhan o'r ateb ac nid yn rhan o'r broblem. Yn rhydd ym Adfent a ddoi di atom drwy dy Ysbryd Glân i'n hadnewyddu a'n cryfhau i fod yn dystion i'th 'dangnefedd' ac yn gyfryngau dy heddw.

O Grist, o Dywysog ein Tangnefedd fe'th geisiwn mewn gostyngeddwrwydd, yn ein hangen, mewn hiraeth am dy ymweliad. Maranatha. Tyrd Arglwydd Iesu. Bydded i'th dangnefedd di sydd uwchlaw pob deall warchod ein calonnau a'n meddyliau yng Nghrist Iesu yn ystod y tymor Adfent hwn.

Amen

Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

EMYN 441:

GWEDDI

Dad Nefol, diolchwn dy fod yn Arglwydd hollbresennol, a thrwy dy ysbryd, gyda ninnau wrth inni ymlonyddu i dy addoli. Boed i'r munudau hyn o addoliad fod yn gyfrwng inni ymlonyddu ac i agosáu atat, a phrofi dy gwmniaeth a'th fendith. Gofynnwn hyn yn enw'r baban ddaeth yn geidwad byd, Iesu Grist. Amen.

DARLLENIAD: Eseia 40:1-11

Bydd cychwyn tymor yr Adfent, i lawer, yn fodd i sylweddoli fod y Nadolig yn prysur agosáu. Yn naturiol, cyfnod o ymbaratoi yw'r tymor hwn i'r Cristion hefyd, a hynny drwy fyfyrddod a gweddi, i nodi Duw'n ymweld â'n byd ar ffurf baban. Yn aml iawn mewn Eglwysi, darperir torch yr Adfent, a symbolaeth pob cannyll yn gyfle i baratoi ein hunain ac ystyried gwahanol agweddau o'r hanes rhyfeddol hwn am ddyfodiad y Crist.

Ceir sawl enghraifft yn llyfr y Proffwyd Eseia o'r rhagfynegiad am ddyfodiad Mab Duw i'r byd, a'r angen i baratoi ar gyfer y dyfodiad hwnnw, a cheir hynny yn y darlenniad heddiw.

Y Duw personol

Mae Eseia 40-66 yn gyfres o benodau sydd â'r thema o gysur yn rhedeg drwyddynt, a hynny'n cychwyn gyda'r geiriau cyfarwydd, 'Cysurwch, cysurwch fy mhobl...'. Siarad yn uniongyrchol â'i bobl y mae Duw yma, gyda'r defnydd o'r gair 'fy' yn creu'r ddolen bersonol rhyngddynt. Roedd Duw yn eu hadnabod, yn gwybod eu sefyllfa, wedi clywed eu cri, ac yn llwyr ymwybodol o'r hyn oedd wedi digwydd iddynt, megis dinistr y Deml. Dyma Dduw, drwy'r proffwyd, yn siarad yn uniongyrchol â nhw eiriau o gysur ac o obaith. Mae'r Duw byw a addolwn ac a gydnabyddwn yn Arglwydd yr un ym mhob cenhedlaeth, a diolch ei fod yn ein hadnabod ninnau hefyd, yn ymwybodol o'n amrywiol sefyllfaoedd ac amgylchiadau, yn adnabod ein cryfderau a'n gwendidau, a thrwy ei adnabyddiaeth bersonol ohonom, a'i gariad diderfyn tuag atom, yn cynnig i ninnau gysur a gobaith.

Yn nyfodiad Iesu, bu i Dduw agosáu atom. Drwy ddyfodiad ei unig-anedig Fab, yr Emaniwel, profwyd 'Duw gyda ni.' Drwy ei ras a'i gariad yn Iesu Grist, agorwyd y ffordd, i bawb ohonom, brofi bendith adnabyddiaeth bersonol â Duw. Rhyfeddod hanes y geni yw, nid yn unig i'r

'Gair ddod yn gnawd', ond hefyd iddo 'breswyllo yn ein plith.' Diolch ei fod yn dal i breswyllo yn ein plith, ac yn Arglwydd hollbresennol sy'n rhoddi cysur a gobaith inni yn ei gariad.

Y ffordd.

Fel y nodir ym mhennod 44, mae sawl peth wrth i'r bobl edrych ymlaen yn gynnwysedig yn y gobaith hwn, gan gynnwys adfer Jerwsalem. Ond mae'n cynnig gobaith llawer mwy hefyd, am ddyfodiad y Meseia.

Dyfynnir geiriau Eseia 40:3 yn Mathew 3:3, ac mae awdur yr Efengyl yn nodi mai cyfeirio at ddyfodiad Iesu i'r byd mae Eseia. Dyma, felly, gyhoeddiad llawn cysur a gobaith a gwahoddir y bobl, drwy'r alwad, i baratoi'r ffordd. Pan fyddai ymweliad o bwys yn digwydd, neu wrth ddod ag eicon o un o'r duwiau, byddai'n arferiad gan bobl y cyfnod hwnnw i baratoi ffordd iddynt allu teithio ar hyd-ddi. Ond y tro hwn, nid ymwelydd o bwys fyddai'n dod, neu un o'r duwiau, ond y Duw byw yn ymweld â'i bobl, y Crist, y Meseia. Dyma'r dyfodiad mwyaf yn hanes y byd, a rhaid oedd paratoi'r ffordd. Pan fydd y ffordd yn barod, a phan fydd Ef yn cerdded y llwybr, 'Datguddir gogoniant yr Arglwydd....'

Yn nyfodiad Crist, daeth teyrnas Duw yn agos, ac agorwyd y ffordd pob cam at y Tad i bawb a gredai ynddo.

Gras a chariad yw sylfeini'r ffordd honno, a'r ffordd yn agored i ninnau ei cherdded. A ydym yn barod i'w cherdded, heibio Bethlehem y Nadolig hwn, drwy barthau Galilea, a thua Chalfaria a'r bedd gwag? Os ydym, gallwn ninnau weld a phrofi, a llawenhau yn y newyddion da drwy'r modd y 'Datguddir gogoniant yr Arglwydd'.

Cyhoeddwoch!

Wrth syllu ar ddarlun o'r geni ym mhasiant Nadolig y Plant, hawdd yw edrych ar y pictiwr perffaith hwnnw fel diwedd y stori a grëwyd canrifoedd ynghynt; tadoji'r digwyddiad i ddoe yn unig. Yn adnodau 6-8, cawn ein hatgoffa, er bod geiriau pobl yn amrywio o genhedlaeth i genhedlaeth, 'mae gair ein Duw ni yn sefyll byth', a'r un yw gwahoddiad yr Arglwydd i'w bobl ym mhob cenhedlaeth.

Yr un yw ei wahoddiad i ddod at erchwyn y gwely gwair a syllu, canfod ac adnabod yr Emaniwel, Duw gyda ni, ac o'i brofi'n

Dduw sy'n parhau i fod yn hollbresennol, a chyda ni yn ogystal â'r bugeiliaid a'r doethion, sylwn ar rym yr Efengyl a'i berthnasedd i'n byd a'n bywydau ninnau heddiw. Am Efengyl, am newyddion da! Am hynny, fel y mae adnodau 9-11 yn ein gwahodd, cyhoeddwn hyn, a phrofwfwn fendith, drwy'r baban, o gael adnabod a bod yn blant Duw.

EMYN 458:

GWEDDI

O Dduw ein Tad, diolchwn am Dy air inni heddiw. Drwy'r proffwyd, cawsom ein harwain unwaith eto i gael ein hatgoffa mai Duw agos atom wyt Ti, sy'n ein hadnabod ac sy'n ein caru. Drwy ddyfodiad dy fab, Iesu Grist, gwahoddwyd ni i berthynas llawn â Thi, a phrofi o'th ofal â'th gysur, dy nerth â'th arweiniad.

*Rhyfeddu 'rwyf, O Dduw,
dy ddyfod yn y cnawd,
rhyfeddod heb ddim diwedd yw
fod Iesu imi'n Frawd.*

Maddau inni os byddwn yn colli golwg ar y rhyfeddod hwn, ac yn cymryd ein perthynas â Thi yn ganiataol.

Diolch am y rhai sydd, o genhedlaeth i genhedlaeth, wedi cerdded dy ffordd, ac wedi tywys eraill at y ffordd honno. Arwain ninnau, yn ystod y tymor hwn o baratoi, i gerdded y ffordd honno, ac i dywys eraill at y llwybr atat Ti. Cyflwynwn waith yr Eglwysi yn ystod y Nadolig hwn; yr her yn ogystal â'r cyfleoedd mewn cyfnod gwahanol iawn yn hanes ein byd.

Cod ein golygon tuag atat Ti yn ystod y tymor hwn o baratoi, yn ystod y Nadolig. Caniatâ inni ganfod y ffordd atat Ti, ac os yr aiff y daith yn dywyll ar brydiau, o godi'n golygon, gallwn fod yn sicr, yng nghanol duwch y nos, y bydd dy seren Di yn disgleirio, yn ein tywys a'n harwain.

Y Fendith (Y Colect ar gyfer yr ail Sul yn Adfent o'r Llyfr Gweddi 1984):

Deffro ein calonnau, erfyniwn arnat, O Arglwydd, i baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodiad dy unig-anedig Fab; fel y bo i ni, a'n meddyliau wedi eu puro, trwy ras ei ddyfodiad, allu dy wasanaethu'n ffyddlon holl ddyddiau ein bywyd; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda Thi a'r Ysbryd Glân, yr awr hon ac yn dragywydd. Amen.

Parch Carwyn Siddall, Llanuwchllyn

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth SY23 3LZ. e-bost: goleuad@ebcpcw.cymru

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.